

Rapporteurs, Polisi Pysgodfeydd Cyffredin
Senedd Ewrop



5 Mawrth 2012

Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin – Ymchwiliad i'r diwygiadau arfaethedig i'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin

Rwy'n ysgrifennu atoch, yn rhinwedd eich swydd fel rapporteur, am y cynigion deddfwriaethol drafft ar gyfer dyfodol y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC) i dynnu'ch sylw at ein gwaith yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yng nghyswllt y cynigion hyn. Hoffwn dynnu'ch sylw at rai o'n canfyddiadau cychwynnol ar sail y dystiolaeth a gafwyd gan amrywiaeth o randdeiliaid yng Nghymru. Hyderaf y byddwch yn ystyried y rhain wrth baratoi'ch datganiad ddrafft, gan gynnwys rhai awgrymiadau ar gyfer gwella'r cynigion.

Sylwadau aelodau trawsbleidiol 'Grŵp Gorchwyl a Gorffen' a sefydlwyd gan Bwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r sylwadau a nodir yn y llythyr hwn. Sefydlwyd y Grŵp hwn i ystyried y cynigion i ddiwygio'r PPC a'u heffaith bosibl ar Gymru.

Casglwyd tystiolaeth gan gynrychiolwyr diwydiannau yn y sectorau pysgodfeydd a dyframaeth, cyrff llywodraethu, cyrff amgylcheddol a Chyfarwyddwr Cyffredinol Materion Morol a Physgodfeydd, Lowri Evans. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael ar-lein ar dudalennau Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.

O gofio cyflwr presennol sector pysgodfeydd yr UE a'r dirywiad parhaus yn stociau pysgod Ewrop, mae'r Grŵp yn credu bod cynigion y Comisiwn yn amserol ac y dylid, yn gyffredinol, eu croesawu. Mae'r Grŵp yn gefnogol i nod y Comisiwn Ewropeaidd o sicrhau bod sector pysgodfeydd Ewrop yn fwy cynaliadwy a phroffidiol yn y dyfodol. Yn ystod yr ymchwiliad, fodd bynnag, galwodd rhanddeiliaid o bob sector ar y Comisiwn i roi gwell eglurhad o nifer o elfennau o'r cynigion deddfwriaethol a byddwn yn annog ein Gweinidog i bwysu am hyn.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Nodwyd chwe maes blaenoriaeth yn benodol yn ystod cam cyntaf y gwaith, a chredwn y byddai angen newid testun y rheoliadau drafft yng nghyswllt y rhain:

- Sicrhau bod y PPC a Chyfarwyddbau Amgylcheddol yr UE yn gyson, yn integredig ac yn cydweddu;
- Sicrhau bod cynlluniau amflwydd yn cael eu datblygu fel mater o flaenoriaeth gan gyfeirio at stociau ar y glannau ac ecosystemau;
- Sicrhau bod pysgodfeydd yn cael eu rheoli'n rhanbarthol yn hytrach na'n ganolog, a bod pysgotwyr a chynhyrchwyr bach yn cael llais digonol yn y cynghorau cynghori;
- Sicrhau nad yw'r cynigion mandadol i drosglwyddo consesiynau pysgota yn caniatáu i'r rhai sydd â'r pŵer economaidd mwyaf fanteisio ar gyfleoedd pysgota ar draul cymunedau ar yr arfordir;
- Sicrhau nad yw'r cynigion ynghylch pysgod a gaiff eu taflu'n ôl yn rhwystro'r gwaith cynaliadwy presennol o daflu pysgod byw yn ôl i'r môr;
- Sicrhau bod mesurau cadarn ar waith i sicrhau bod yr holl Aelod-wladwriaethau'n casglu data mewn modd systematig a chyson.

Yn ogystal â'n meysydd blaenoriaeth, mae gennym sylwadau'n ymwneud â hawliau pysgota hanesyddol, dyframaeth a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd.

Mae'r papur sydd ynghlwm sy'n ymdrin â'n canfyddiadau allweddol yn manylu ar y materion a'r meysydd allweddol i'w gwella, a nodir uchod.

Byddwn yn parhau i fonitro hynt y cynigion yn ystod y trafodaethau, gan gynnwys y trafodaethau tyngedfennol yn Senedd Ewrop. Gobeithio y byddwn yn gallu trafod y materion hyn â chi (ac unrhyw bwyntiau eraill sy'n codi yn y cyfamser) pan fyddwn yn ymweld â Brwsel yn ystod y misoedd nesaf.

Yn gywir



Julie James
Cadeirydd

Canfyddiadau allweddol Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.

1. Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth (*Erthygl 2.4'*)

Mae gan y PPC ran hanfodol yn y gwaith o sicrhau bod Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol yn cael ei rhoi ar waith. Gan hynny, rydym yn croesawu cynnig y Comisiwn Ewropeaidd y dylai'r PPC hybu dulliau o reoli pysgodfeydd sy'n seiliedig ar ecosystemau ac y dylai sicrhau'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf erbyn 2015. Roedd llawer o'r dystiolaeth a gawsom fodd bynnag, yn mynegi pryder ynghylch y ffaith nad oes cysylltiad amlwg rhwng y Gyfarwyddeb a'r cynigion i ddiwygio'r PPC. Mae tri phrif faes yn peri pryder:

- Nid yw'r PPC yn atgyfnerthu'n benodol y gofyniad i foroedd sicrhau statws ecolegol da erbyn 2020.
- Yn y Gyfarwyddeb, nodir bod angen i'r aelod-wladwriaethau gydweithredu'n rhanbarthol ond nid yw'r gofyniad hwn wedi'i gynnwys yn rheoliadau'r PPC.
- Yn y Gyfarwyddeb, mae targedau ar gyfer pysgod a gaiff eu talu'n ôl, ond nid ydynt yn cyd-fynd â'r targedau yn y cynigion i ddiwygio'r PPC.

Mae'r rhanddeiliaid yn credu bod y diffyg eglurder hwn yn creu anghysonderau a gwrthdaro posibl rhwng y Gyfarwyddeb a'r PPC, a allai danseilio amcanion cynigion y Comisiwn Ewropeaidd.

Rydym yn argymhell y dylid newid *Erthygl 2.4* i ddarllen fel a ganlyn:

The Common Fisheries Policy shall integrate Union environmental legislation requirements; *contribute to the achievement of good environmental status of EU waters by 2020 and favourable conservation status under the Habitats and Birds Directives.*

2. Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar (*Erthygl 12*)

Roedd nifer o gyrff amgylcheddol yn pryderu am eiriad y cynigion i ddiwygio'r PPC yng nghyswllt y Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar. Roedd rhanddeiliaid yn credu'n gryf bod y cynigion presennol yn gwanhau'r diogelwch y mae'r Cyfarwyddebau presennol yn ei gynnig i gynefinoedd a rhywogaethau morol. Efallai mai camgymeriad wrth ddrafftio testun y cynigion yw hyn, ond gall amharu'n arw ar y gallu i roi'r Cyfarwyddebau hyn ar waith yn effeithiol.

Gan hynny, rydym yn galw am welliannau i destun y cynigion, fel a ganlyn:

Erthygl 12.1 i'w newid i ddarllen fel a ganlyn:

.....Member States in such a way as to *avoid deterioration of habitats and disturbance of species* in such special areas of conservation.

¹ Sylwch fod yr holl welliannau a gynigir yn y llythyr hwn yn ymwneud â'r Rheoliad drafft ar gyfer y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin COM(2011)425, a gyhoeddwyd ar 13 Gorffennaf 2011

Erthygl 12.2 i'w newid i ddarllen fel a ganlyn:

The Commission shall be *obliged* to adopt delegate acts....to specify fishing related measures to *avoid deterioration of habitats and disturbance of species* in such special areas of conservation.

3. Cynlluniau amlflwydd a'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf (Erthygl 2)

Roedd cyrff amgylcheddol a chyrrff y diwydiant pysgota yn gefnogol i'r cynnig i ddatblygu cynlluniau amlflwydd i reoli stociau pysgod. Byddai dulliau o reoli stociau sy'n seiliedig ar gynlluniau ar gyfer nifer o flynyddoedd, ac sy'n diogelu ecosystemau, yn sicrhau gwell canlyniadau i'r stociau pysgod a'r diwydiant.

Roeddent yn cytuno, fodd bynnag, fod angen llawer rhagor o fanylion ynglŷn â rheoli sut a phryd y caiff y cynlluniau eu datblygu. Yn ogystal â hyn, gan mai drwy gyfrwng y cynlluniau hyn yn bennaf y bydd modd sicrhau pysgodfeydd cynaliadwy, dylid sefydlu proses glir i gynnwys rhanddeiliaid yn y gwaith o'u datblygu.

Roedd llawer o'r dystiolaeth o blaid cynnal asesiad amgylcheddol o gynlluniau amlflwydd ac y dylent ystyried pysgodfeydd y glannau, lle bo hynny'n berthnasol, er mwyn gweithredu ar sail ecosystemau cyfan.

Rydym yn cydnabod bod bylchau mewn data a gwybodaeth wyddonol a all, yn y tymor byr, fod yn rhwystr i'r gwaith o ddatblygu cynlluniau amlflwydd ond, er hyn, gan eu bod mor bwysig i lwyddiant y polisi, credwn fod yn rhaid ymrwymo i'w datblygu fel mater o frys.

Gan hynny, rydym yn argymhell, lle bo hynny'n bosibl, y dylid mabwysiadu cynlluniau amlflwydd erbyn 2015 i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r ymrwymiad i sicrhau'r cynnyrch cynaliadwy mwyaf o ran stociau pysgod erbyn 2015:

Ychwanegu adran 5 newydd at Erthygl 2 sy'n nodi: **Multiannual plans shall, where possible, be adopted by 2015.**

4. Trosglwyddo Consesiynau Pysgota (Erthyglau 27-33)

Mae'r rhan fwyaf o fflyd pysgota Cymru yn cynnwys cychod bach y glannau, llai na 12 metr o hyd. Gan hynny, rhanddeiliaid yn pryderu am gynigion y Comisiwn i gyflwyno cynllun mandadol o gonsesiynau pysgota trosglwyddadwy i bob cwch dros 12 metr o hyd a phob cwch a ddefnyddir i dynnu offer. Mynegwyd y pryderon penodol a ganlyn:

- Byddai cyflwyno consesiynau pysgota trosglwyddadwy yn arwain at breifateiddio adnawdd cyhoeddus a byddai'r consesiynau pysgota, yn y pen draw, yn debygol o fynd i ddwylo'r rhai sydd â'r pŵer economaidd mwyaf.
- Ni fyddai'r system consesiynau pysgota trosglwyddadwy, o reidrwydd, yn sicrhau pensiwn i bysgotwyr i ganiatáu iddynt ymddeol a lleihau

gorgapasiti. Er y byddai perchennog y consesiynau'n gallu eu rhentu ar brydles er mwyn cael pensiwn, dim ond perchennog neu gapten y cwch fyddai'n cael yr arian, nid y criw.

- Byddai'r system consesiynau pysgota trosglwyddadwy'n arwain at sefyllfa lle byddai bysgotwyr go iawn yn gorfod talu symiau mawr am gwota i berchnogion cychod a chonsesiynau pysgota.
- Gan fod nifer o gychod yn amlbwrpas ac yn defnyddio offer i dynnu ac offer goddefol, nid yw'n glir sut a phryd y byddai'r system fandadol yn gymwys i'r cychod hyn.
- Byddai'r system fandadol yn creu problemau penodol i'r fflyd sy'n pysgota ar raddfa fechan ar hyd y glannau yng Nghymru oherwydd, yn hanesyddol, prin fu'n rhywogaethau'r cwotâu a oedd ar gael iddynt.

Yn gyffredinol, teimlai rhanddeiliaid na ddylid cyflwyno system fandadol o gonsesiynau ac y dylid cyflwyno system wirfoddol yn cynnwys gwahanol dulliau i'r aelod-wladwriaethau eu defnyddio i leihau gorgapasiti i newid ymddygiad pysgotwyr. Er ein bod yn cydnabod cynnig y Comisiwn i ganiatáu i aelod-wladwriaethau gynllunio'u systemau a'u dulliau diogelu'u hunain, rydym yn teimlo bod y mater hwn yn rhy bwysig i'w adael i ragluniaeth.

Rydym yn argymhell, gan hynny, y dylai'r system consesiynau pysgota trosglwyddadwy fod yn wirfoddol. Dylid o leiaf sicrhau mwy o eglurder yn y ddeddfwriaeth o ran y modd y caiff ei chymhwyso i gychod bach ag offer cymysg ac o ran y camau y dylid eu cymryd i ddiogelu ac i gynnal fflyd pysgota amrywiol Ewrop.

5. Datganoli cyfrifoldeb i'r rhanbarthau

Rydym yn croesawu cynigion y Comisiwn i ddatganoli cyfrifoldeb dros reoli pysgodfeydd i'r rhanbarthau. Heb ddatganoli, a chynyddu rôl rhanddeiliaid, mae'n anodd dychmygu sut y gellir rheoli pysgodfeydd yr UE yn gynaliadwy. Fodd bynnag, roedd rhanddeiliaid yn teimlo'n gryf nad oes digon o eglurdeb o ran y modd y gallai datganoli'r gwaith o reoli pysgodfeydd weithio'n ymarferol ee a fydd gan y cynghorau cynghori ran yn y gwaith, a fydd disgwyl iddynt reoli pysgodfeydd ar y cyd ag aelod-wladwriaethau neu a fydd aelod-wladwriaethau'n cael eu gorfodi i weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod pysgodfeydd yn cael eu rheoli'n rhanbarthol?

Rydym yn croesawu'r ffaith bod Cyfarwyddwr Cyffredinol Materion Morol a Physgodfeydd yn cydnabod bod angen mwy o eglurder yn y maes hwn. Roedd y Pwyllgor hefyd yn croesawu'r ffaith bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cadarnhau y gallai'r aelod-wladwriaethau, o dan y cynigion, ddod ynghyd i reoli moroedd ar raddfa ranbarthol lai ee Môr Iwerddon. Byddwn, felly, yn annog Llywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â'r mater hwn ac i hyrwyddo'r syniad a'i ddatblygu fel ffordd o reoli pysgodfeydd.

Clywodd y Grŵp fod cefnogaeth gyffredinol i rôl a swyddogaethau'r Cynghorau Cynghori a theimlai rhanddeiliaid yn gryf y dylai'r Cynghorau Cynghori fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu ac asesu cynlluniau amlflwydd. Fodd bynnag, roedd rhai'n pryderu am y modd y mae Cynghorau Cynghori wedi bod yn gweithredu. Teimlai rhanddeiliaid:

- Bod y Cynghorau Cynghori Rhanbarthol wedi ymbellhau oddi wrth bysgotwyr bach ac, oherwydd hynny, nid yw eu sylwadau wedi cael eu cynrychioli'n ddigonol yn y gorffennol.
- Bod y rhai sy'n cynrychioli buddiannau pysgotwyr bach yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn gorfod dewis rhwng bod ar eu cychod neu fynd i gyfarfodydd i gynrychioli'r diwydiant.

Rydym yn argymhell, gan hynny, y dylid sicrhau bod strwythur y cynghorau cynghori yn y dyfodol yn rhoi llais i bysgotwyr a chymunedau'r glannau.

Rydym yn croesawu'r cynigion yng nghyswllt Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop a fyddai'n caniatáu i'r aelod-wladwriaethau gynorthwyo cynrychiolwyr y sector pysgota ar raddfa fechan gyfrannu at drafodaethau'r Cyngor Cynghori Rhanbarthol.

6. Pysgod a gaiff eu taflu'n ôl

Er bod y cyrff amgylcheddol a'r diwydiant pysgota o blaid yr egwyddor o ddod â'r arfer o daflu pysgod yn ôl i'r môr i ben, roedd rhai ohonynt yn pryderu am ganlyniadau anfwriadol gwahardd yr arfer yn gyfan gwbl. Yn benodol, mae'r Pwyllgor yn teimlo'i bod yn bwysig:

- sicrhau bod cyn lleied o bysgod diangen â phosibl yn cael eu dal yn y lle cyntaf drwy ganolbwyntio ar ddefnyddio offer pwrpasol a chryfhau'r cysylltiad rhwng *Erthygl 14* yn ymwneud â mesurau technegol ac *Erthygl 15* yn ymwneud â physgod a gaiff eu taflu'n ôl
- cymryd camau i sicrhau nad yw marchnadoedd newydd yn cael eu creu ar gyfer rhywogaethau o bysgod bach sydd mewn perygl o ddiflannu.

Gan hynny, rydym yn argymhell y dylid newid *Erthygl 15* fel a ganlyn:

All catches of the following fish stocks subject to catch limits caught during fishing activities in Union waters or by Union fishing vessels outside Union waters shall be brought and retained on board fishing vessels and recorded and landed except where used as live bait *or where unwanted catch can be returned alive.*

7. Casglu data (*Erthygl 37 a Chronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop*)

Roedd yr holl dystiolaeth yn cytuno bod yn rhaid seilio'r gwaith o ddiwygio'r PPC ar dystiolaeth wyddonol gadarn. Mae'n bwysig bod y broses o gasglu data

o dan Bolisi Pysgodfeydd Cyffredin newydd yn cael ei chynllunio i hybu dulliau sy'n diogelu ecosystemau yn hytrach na dim ond diogelu un stoc pysgod unigol. Bydd casglu amrywiaeth ehangach o ddata o safon yn bwysig ar gyfer datblygu a gweithredu cynlluniau amlflwydd ac yn hanfodol ar gyfer datblygu pysgodfeydd Ewropeaidd cynaliadwy. Roeddem yn falch bod y Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi cydnabod hyn yn ystod ei thrafodaethau â ni ac rydym yn croesawu cynigion y Comisiwn Ewropeaidd i weithio gyda'r gymuned wyddonol a'r aelod-wladwriaethau i wella'r dystiolaeth sydd ar gael.

Er mwyn llenwi'r blychau presennol yn y data, roeddem yn teimlo bod angen gwneud rhagor i gymell pysgotwyr i gymryd rhan yn y broses o gasglu data ac i ddatblygu'r bartneriaeth rhwng y gwyddonwyr a'r pysgotwyr. Mae angen sicrhau bod y data a gesglir yn cael ei fwydo'n ôl i'r diwydiant mewn ffordd ddefnyddiol er mwyn iddynt weld ei bod yn fuddiol iddynt gymryd rhan yn y broses. Gan hynny, rydym yn croesawu'n frwd y cynnig yn Rheoliadau Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop i sicrhau bod arian ar gael ar gyfer cynlluniau o'r natur hwn.

Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod yr aelod-wladwriaethau'n rhoi sylw dyledus i'r broses o gasglu data, rydym yn cynnig y dylid cryfhau rheoliadau'r PPC i'w gwneud yn ofynnol i'r aelod-wladwriaethau ddatblygu cynlluniau casglu data gyda rhanddeiliaid.

Ar hyn o bryd, mae *Erthygl 37.3 yn ymwneud â Gofynion Data ar gyfer Rheoli Pysgodfeydd* yn ei gwneud yn ofynnol i'r aelod-wladwriaethau sicrhau bod y gwaith o gasglu a rheoli data gwyddonol ar gyfer rheoli pysgodfeydd yn cael ei gydgyssylltu'n genedlaethol. Rydym yn argymhell bod y cynigion yn cael eu diwygio fel a ganlyn:

Erthygl 37.3

Member States shall ensure the national coordination of the collection and management of scientific data for fisheries management and *shall produce multi-annual plans for data collection*. To this end they shall designate a national correspondent and organize an annual national coordination meeting. The Commission shall be informed of the national coordination activities *and of the production multi-annual plans* and be invited to the coordination of meetings.

8. Dyframaeth

Roedd cefnogaeth gyffredinol i gynnig y Comisiwn Ewropeaidd i'w gwneud yn ofynnol i'r aelod-wladwriaethau ddatblygu strategaethau dyframaeth cenedlaethol. Er y dylid rhoi hyblygrwydd i'r aelod-wladwriaethau gynllunio strategaethau cenedlaethol sy'n addas ar gyfer eu diwydiannau nhw, mae'n bwysig i'r UE fod â chyfeiriad canolog cryf. Rydym yn nodi pryderon Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch sybsidiaredd ond yn cydnabod bod y diwydiant yn awyddus i sicrhau twf yn y sector drwy gael arweiniad canolog ar gyfer yr UE cyfan. Bydd yn bwysig, fodd bynnag, sicrhau

bod y PPC yn ei gwneud yn ofynnol i'r diwydiant lynu wrth fesurau a chyfarwyddebau i ddiogelu'r amgylchedd.

9. Cynigion ar gyfer Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop

Ar ôl dechrau casglu'n tystiolaeth am y cynigion i ddiwygio'r PPC, cyn cyhoeddi'r cynigion ynghylch Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop, roeddem yn falch o weld bod cynifer o ddymuniadau rhanddeiliaid wedi'u cynnwys. Yn benodol, rydym yn croesawu'r cynigion i ganiatáu i'r aelod-wladwriaethau gynnig arian ar gyfer:

- Cymorth ar lefel uwch i fflyd y glannau sy'n pysgota ar raddfa fechan;
- Cymorth busnes a marchnata i fflyd y glannau sy'n pysgota ar raddfa fechan;
- Dechrau busnesau newydd ar hyd y glannau;
- Cyrff i gynrychioli fflyd y glannau sy'n pysgota ar raddfa fechan i roi llais iddynt mewn trafodaethau'n ymwneud â'r PPC.

Gobeithio y bydd yr elfennau hyn yn parhau'n rhan o'r gronfa a byddwn yn sicr yn annog ein Llywodraeth i ddefnyddio'r arian i gynnig cymorth cyffredinol i gymunedau sy'n pysgota ar hyd y glannau yng Nghymru.

10. Hawliau Pysgota Hanesyddol

Er ein bod yn deall nad yw hawliau pysgota hanesyddol yn rhan o'r cynigion i ddiwygio'r PPC ar hyn o bryd, gan fod y cychod sydd â'r hawliau hyn yn cael effaith mor niweidiol ar ein fflyd pysgota, mae'n rhaid inni fanteisio ar bob cyfle i dynnu sylw at y problemau difrifol y mae'r mater hwn yn dal i'w creu. Clywsom fod y diwydiant pysgota yng Nghymru yn pryderu'n arw am y canlynol:

- Er mai ychydig iawn o gwotâu ar gyfer stociau masnachol sydd ar gael i bysgotwyr Cymru, mae'r stoc pysgota yn nyfroedd Cymru wedi parhau i ddirywio.
- Nid yw treillongau sy'n perthyn i fflydoedd sydd â hawliau hanesyddol yn cynnig unrhyw fudd economaidd uniongyrchol i gymunedau ar hyd glannau Cymru, ac mae unrhyw bysgod y byddant yn eu dal yn cael eu cofrestru i'w haelod-wladwriaethau eu hunain, felly nid ydynt yn cael eu hychwanegu at y cofnod hanesyddol o'r pysgod a gaiff eu dal yng Nghymru.

Er ein bod yn nodi barn y Comisiwn nad yw'r aelod-wladwriaethau, gan gynnwys y DU, yn awyddus i ddelio â'r mater hwn ar hyn o bryd drwy'r PPC, rydym yn gobeithio'n arw y bydd yr holl aelod-wladwriaethau'n manteisio ar y cyfle i ddelio â'r mater drwy gyfrwng cytundebau rhanbarthol i ddatganoli'r cyfrifoldeb o reoli pysgodfeydd i'r rhanbarthau. Oni bai y cymerir camau

pendant yn y cyswllt hwn, bydd dyfodol cymunedau traddodiadol sy'n pysgota ar raddfa fechan ar hyd y glannau dan fgythiad.